Cenn@d

RHAGFYR 11 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 198

# Arfogi 24 – penwythnos i annog a grymuso oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala

I ddechrau'r penwythnos, 15–17 Tachwedd, cawsom sesiwn arbennig gydag Owen Cottom o Gaerdydd. Mae Owen ar hyn o bryd yn fugail cynorthwyol yn Eglwys y Bedyddwyr, Rhiwbeina, a chyn hir bydd yn ymwneud â phlannu gwaith newydd yn ne'r ddinas. Pwysleisiodd barodrwydd Philip yr Efengylydd i wasanaethu a'n galwad ninnau i gamu allan ac efengylu. Wedi'i gyplysu ag addoliad pwerus, gosododd y sesiwn sylfaen wych i'r penwythnos, gyda chyfle i ddod at ein gilydd i foli a dysgu sut i wasanaethu a bod yn ddisgybl i Iesu. Roedd y byrbryd o *bagels* a gemau cardiau ar ôl y sesiwn yn rhoi cyfle i ddod i nabod yr holl wynebau newydd oedd wedi dod i'r coleg am y tro cyntaf! Un o fy uchafbwyntiau oedd chwarae gemau cardiau wrth glywed tystiolaeth mynychwyr newydd. Yn fuan iawn, daeth teimlad o gymuned rhwng mynychwyr Arfogi wrth i ni annog a chefnogi ein gilydd ynghanol yr hwyl.



Criw Arfogi 24

Ar ôl brecwast ar y bore Sadwrn, bu Andy Ollerton, bellach o Gymdeithas y Beibl, yn rhannu am Philip yn cyfarfod yr eunuch o Ethiopia. Roedd y sgwrs yn fy herio i fod yn fwy disgybledig wrth astudio'r Beibl. Wrth rannu hyn yn fy ngrŵp bach ar ôl y sesiwn, gwelwyd eto'r gymuned yng Nghrist sy'n bresennol yn ein plith, wrth i ni weddïo dros bopeth oedd wedi herio unigolion y grŵp.



Steffan Morris yn arwain yr addoliad

Yn dilyn hwyl y prynhawn (dewis o chwarae pêl-droed neu aros yn y coleg am sgyrsiau a gemau bwrdd dros ddiod a chacennau), cawsom sesiwn gwych gyda thri chyfraniad yn dangos sut mae Duw wedi bod yn ffyddlon yng Nghymru yn y gorffennol a'r presennol, ynghyd â fideo pwerus gan Open Doors am erledigaeth Cristnogion yn Burkina Faso. Ar ôl swper cawsom sesiwn holi ac ateb da, ac roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau ynglŷn â'r Ysbryd Glân a sut i wrando ar Dduw. Roedd hynny'n dangos dyhead mynychwyr Arfogi i wasanaethu Duw yn ffyddlon, a hynny, heb os, yn ganlyniad i holl sesiynau'r penwythnos. Es i ngwely'n hwyr ar ôl sgwrsio am sefyllfa ein capeli a galwadau wrth dostio *marshmallows* ar y tân!

Bore Sul, dyma'r bore olaf, gyda Heulwen Davies o Lanelli, sefydlydd yr elusen Heirs, yn sôn am Samson a'n galwad i edrych eto ar Grist. Rhoddodd hyn hyder i ni yn fy ngrŵp bach i wneud addewidion i fod yn atebol i'n gilydd yn ein hymrwymiadau newydd fel disgyblion i Iesu. Wrth ffarwelio ar ôl cinio blasus (blasus oedd holl fwyd y penwythnos!), roeddwn yn sicr fod pawb yn gadael Arfogi yn genhedlaeth ar dân dros Grist. Os ydych chi'n oedolyn ifanc, byddai'n wych os mai chi fyddai un o'r wynebau newydd yng nghwrs Souled Out yr haf neu'r cwrs Arfogi nesaf yn y Bala, er mwyn i ni allu moli a dysgu sut i wasanaethu Duw gyda'n gilydd!

*Tomos Edwards, 21 oed*
*Llanuwchllyn*



Shaina, Sioned a Deborah yn barod i dostio crumpets a bagels i bawb ar ddiwedd y noson!

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**

Cofio James Clarke
Tudalen 2

Dysgu oddi wrth gyfeillion yn yr Alban
Tudalen 3

Cantata'r Geni ar Gerdd Dant
Tudalen 8

# Cofio James Clarke

Un o hogia pentref bach Llanbêr oedd James Clarke, wedi ei fagu yn un o chwech ar lethrau'r Wyddfa. Yn Lerpwl a Leeds y bu dechrau'r daith, cyn i'r teulu ymsefydlu yn Llanberis ar ddechrau'r 60au. Y rhagluniaeth honno a roddodd iddo gyfle i fod yn Gymro ac ymarfer ei ddoniau mewn llefydd fel band Llanbêr, dramâu lleol ac Ysgol Brynrefail. Yno y cafodd ei gymar a'i gariad, Edwina, a rannodd yn ei weinidogaeth ac yn y llawenydd o fagu teulu gyda'i gilydd nes ei cholli mor gynnar, 15 mlynedd yn ôl.

Byr iawn fu gwaeledd Jim. Yn y sgwrs olaf a gefais efo fo ryw fis cyn iddo ein gadael, roedd yn gafael yn dynn yn yr addewid sydd i'w chael yn Rhufeiniaid 8:37–9 nad oes dim yn gallu ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, dim hyd yn oed marwolaeth ei hun. Roedd Jim yn gwybod lle roedd o'n mynd.

Bu'n ŵr ffyddlon i Edwina, yn dad caredig i Dewi a Gwion a'u gwragedd, Tamara a Llio; roedd yn daid arbennig i'w wyrion, Elis a Nedw, ac yn frawd gofalgar i Michael, Steven, Patrick, Julie a Christopher. Cafodd pawb arall ohonom ei adnabod fel bugail, gweinidog, rheolwr, caplan ieuenctid, cyfaill hynod o driw, a Christion i'r carn.

Yn ferch ifanc 16eg oed ar gwrs calan yng Ngholeg y Bala y dois i adnabod Jim gyntaf; Jim oedd Caplan y Coleg ar y pryd. Gweithiodd yn ddiflino fel Caplan a Swyddog Ieuenctid y Cyfundeb rhwng 1983 a 1991. Roedd hwn yn gyfnod prysur lle roedd y gwaith yn ehangu yn y Bala o dan ei arweiniad, cyfnod lle roedd pob henaduriaeth, 30 ohonynt bryd hynny, yn llenwi'r coleg gyda phlant a phobl ifanc, a chyrsiau preswyl wythnos yn cael eu cynnal yn ystod Gorffennaf ac Awst. Yn ystod y cwrs calan arbennig hwnnw pan oeddem yn croesawu'r flwyddyn 1988, prin y dychmygais y byddwn o fewn dwy flynedd yn cael yr aruthrol fraint o gydweithio â Jim yn y coleg. 'Lower lower junior' oedd ei deitl answyddogol arnaf fel aelod o'r staff! Ond doedd yntau ddim ond yn ei dridegau cynnar bryd hynny ac wedi cael ei annog ei hun gan Gwilym Ceiriog Evans tra oedden nhw'n aelodau yn Henllan i fynd yn ifanc am y swydd heriol hon yn y Bala.

'Duw sy'n dy garu di ... teimlaf wres ei gariad Ef yn dy gynnal di bob awr'. Fe gyfansoddodd Jim hi wrth deimlo gwres y *radiator* y tu ôl iddo ar noson aeafol yn y coleg! Hon oedd y gân y byddai Jim yn ei defnyddio wrth fedyddio plant, a'r gân honno sy'n dal i doddi calonnau plant ac oedolion wrth i ni ei chanu. Fe gyflwynodd lawer o ganeuon ac adnoddau newydd i genedlaethau o blant, ieuenctid ac aelodau, gyda chyfieithiad Gwilym Ceiriog eto'n un o'i ffefrynnau: 'Sefyll o dan adain cariad Duw a ddaw â hedd i ni'.

Fe dorrodd llawer ohonom ein calonnau pan adawodd Jim, Edwina, Dewi Osian a Gwion Llŷr am Aberystwyth yn 1991. Gadael sicrwydd a llawenydd Tŷ'r Coleg i fyw mewn fflat ar lawr uchaf Tŷ Barclay yn Aberystwyth. Pan oeddem ni'n ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn honno, dwi'n cofio fel y byddai Edwina yn gorfod gadael y pram i lawr grisiau a chario Gwion Llŷr yn ei breichiau i fyny dau lawr o risiau. A hynny am fod y cwpwl ymroddedig yma wedi clywed galwad yr Arglwydd ar eu bywydau i weinidogaeth ordeiniedig.



O 1992 ymlaen, bu Jim yn gwasanaethu mewn dwy ofalaeth – Uwch Gwyrfai ac yna yn Llanfair-pwll – tan ei ymddeoliad yn nechrau 2017. Estynnodd yno eto at genedlaethau o blant a phobl ifanc drwy ei ymweliadau â'r ysgolion, ei glybiau a'i gitâr. Bu Jim yn was ffyddlon i'w Arglwydd, ond i'r eglwys hefyd, gan gynnwys yr enwad yn ganolog, ac yn arbennig yn y mân faterion cyflogaeth ac ariannol hynny. Bu'n ymddiriedolwr ar y Bwrdd Pensiynau am flynyddoedd, ac roedd yn weithgar ac yn gywir ei gyfraniad yn llysoedd a phwyllgorau'r Cyfundeb. Byddai'n llwyddo i wneud i ni chwerthin, hyd yn oed wrth drafod arian! Fe'i cofir fel yr un oedd yn barod i ofyn y cwestiynau anodd. Byddai hefyd yn llwyddo i dawelu'r dyfroedd pan oedd angen gwneud hynny, ond wastad yn deg ac yn gyson ei ffordd efo pawb, a'i fagwraeth yn sŵn ymryson yr undebau llafur yn dod i'r amlwg.

Chwe blynedd yn ôl, cefais gwmni Jim am wythnos wrth i mi gerdded arfordir Môn ar gyfnod sabothol. Roedd yn wythnos i'w chofio a'i thrysori: *fish & chips* yn y Fali, siarad tan oriau mân y bore o flaen tanllwyth o dân – y pethau syml hynny rydyn ni'n eu mwynhau yng nghwmni ffrindiau. Bu Jim yn ffrind ffyddlon, gwell na brawd, i amryw ohonom. Rwy'n ddiolchgar iddo am ei gwmni, ei arweiniad a'i ofal, ac yn arbennig ei negeseuon o anogaeth imi fel Ysgrifennydd Cyffredinol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yma.

Diolch, Arglwydd, am gael ei adnabod a'i gael yn gwmni ac yn gyfaill ar ein taith: 'Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!'

(Addaswyd o deyrnged gan Nan Powell-Davies a draddodwyd yng ngwasanaeth coffa Jim yng Nghapel Rhos-y-gad, 14 Tachwedd)

Er cof am un o hogia Llanbêr
Roedd balm cerdd yn ei gerdded, yn ei Dduw
roedd yn ddwys ymddiried,
yn hirben a diarbed
â gras y rhannodd ei gred.

*John Owen*

# Dysgu oddi wrth gyfeillion yn yr Alban




Yn ddiweddar, treuliodd Aled Davies o Gyngor Ysgolion Sul Cymru bum diwrnod yn yr Alban yn cyfarfod nifer o enwadau a mudiadau yno er mwyn trafod gwaith plant. Yma mae'n rhannu ei brofiadau, gan ystyried sut gallwn ninnau yng Nghymru ddysgu ac elwa o'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban.

Ers cael fy mhenodi i weithio i'r Cyngor Ysgolion Sul 35 mlynedd yn ôl, dwi wedi gwerthfawrogi pob cyfle posib i gyfarfod pobl eraill sy'n gweithio yn yr un maes. Yn fuan wedi i mi gychwyn yn y swydd fe'm llusgwyd gan Rheinallt Thomas i gynhadledd CGMC, sef rhwydwaith gwaith plant Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. A 35 mlynedd yn ddiweddarach, dwi'n dal i'w mynychu, ac wedi gwasanaethu fel Cadeirydd a Thrysorydd. Yn yr un modd fe aeth â fi am wibdaith i'r Swistir i gynhadledd gyfatebol ar lefel Ewropeaidd, ac mae wedi bod yn dda cael dod i adnabod cyd-weithwyr dros y cyfandir cyfan.

Un pererindod blynyddol arall i mi yw mynd i'r Christian Resources Exhibition, lle ceir dros 300 o stondinau yn hybu nwyddau Cristnogol. Fel un sy'n paratoi adnoddau Cymraeg ar gyfer eglwysi Cymru, mae gweld yr hyn sy'n gyfoes a newydd yn fanteisiol, ac yn ysgogiad i gychwyn ar brojectau newydd 'nôl yng Nghymru. Fodd bynnag, eleni, am y tro cyntaf, doedd y dyddiadau ddim yn gyfleus, a chollwyd ar y cyfle i fynychu'r arddangosfa. Gan na fu'r daith i dde Lloegr felly'n bosib eleni, cefais y syniad o anelu tua'r Alban yn lle hynny, er mwyn cyfarfod â chynrychiolwyr rhai mudiadau ac enwadau yno. Mae'n debyg ein bod yn reddfol yn tueddu i edrych tua Lloegr am adnoddau, gan fod cynifer o fudiadau a chyhoeddwyr Cristnogol yn gweithio yno. Ond fis Hydref eleni, mi drois i gyfeiriad yr Alban i weld yr hyn oedd yn digwydd yno, a cael saith cyfarfod buddiol dros gyfnod o bum diwrnod.

Dyma grynodeb o'r daith a rhai argraffiadau.

**Eglwys yr Alban**
Mae'n debyg mai Eglwys yr Alban yw'r eglwys gryfaf yn yr Alban, sef Eglwys Bresbyteraidd yr Alban. Mae eu prif swyddfa yng Nghaeredin, a cefais gyfle i gyfarfod eu swyddog datblygu gwaith plant. (Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio Ionwen Roberts a fu'n gweithio yng Ngholeg y Bala ganol yr 80au, ond a aeth i'r Alban i gyflawni'r swydd hon am tua 10 mlynedd tan ganol y 90au) Suzi Farrant sy'n dal y swydd erbyn hyn, un sydd wedi ymchwilio ac ysgrifennu'n helaeth ar weinidogaeth bob oed. Roedd hithau'n dweud bod y pandemig wedi bod yn ergyd farwol bron i waith plant yn yr eglwysi, ac mai prin yw'r plant a welir mewn oedfa ar y Sul, a bod nifer y clybiau a'r ysgolion Sul wedi lleihau'n ddirfawr ers pum mlynedd. Fodd bynnag, mae'r eglwys yn buddsoddi'n helaeth mewn gwaith newydd gyda theuluoedd, a hynny drwy waith yn y plwyfi lleol a thrwy gefnogi gwaith mewn ysgolion. Mae sawl adnodd gwerthfawr wedi ei gyhoeddi ganddynt, a gobeithiwn un ai rannu'r rheini yn Saesneg fel y maent, neu hyd yn oed gyfieithu ambell beth.

**Cymdeithas y Beibl**
Tra mae Cymru a Lloegr yn rhannu yr un Cymdeithas y Beibl, mae gan yr Alban gorff sy'n hollol annibynnol ac ar wahân. Bu'n dda cael cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Gweinidogaethau, Fiona McDonald, er mwyn clywed beth oedd eu gweledigaeth hwythau. Cefais gopi o Feibl lliw yn iaith Gaeleg yr Alban, a braf oedd clywed am y diddordeb cynyddol yng ngogledd y wlad tuag at yr iaith. Roeddent hefyd yn cyhoeddi llawer o adnoddau cenhadol i'w rhannu, yn eu plith nifer o gynlluniau ar gyfer y Nadolig. Eleni ceir 24 cerdyn i'w plygu yn eu hanner ar ffurf triongl er mwyn creu bynting y Nadolig. Ar bob ochr o'r pedwar triongl roedd gweithgareddau teuluol, ac erbyn y Nadolig roedd bynting lliwgar a deniadol yn atgoffa'r teulu o'u taith drwy'r Adfent. Y llynedd roedd syniad cyffelyb gyda chydweithio teuluol i greu ffenest Nadolig, gan fynd â'r stori'n weledol i ochr y stryd, gan dynnu sylw pawb oedd yn pasio heibio. Dyma syniadau syml y gellir eu mabwysiadu yng Nghymru ar gyfer 2025. Roedd ganddynt lyfrau syml ac apelgar hefyd er mwyn cyflwyno'r Beibl i blant, a mawr

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Dysgu oddi wrth gyfeillion yn yr Alban*
*(parhad o dudalen 3)*

obeithiwn fedru cyfieithu rhai o'r rhain hefyd. I ddysgu mwy am eu gwaith, ewch i https://www.scottishbiblesociety.org.

**Scripture Union**
Eto, tra mae Scripture Union Cymru a Lloegr yn un corff, mae Scripture Union Scotland yn gorff hollol annibynnol, a braf oedd cyfarfod yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Zonya Bewick, yn ei swyddfa yng Nghaeredin. Mae SU yn gorff sylweddol yn yr Alban, gyda dros 300 o staff, ac yn weithgar mewn ysgolion, yn trefnu gwyliau a gwersylloedd ac yn cyhoeddi adnoddau. Roedd eu pwyslais ar weithio yn gwbl leol, cefnogi gwaith ar lawr gwlad mewn ysgolion ac eglwysi. Mae canran uchel o eglwysi yn yr Alban â chaplaniaid mewn ysgolion, a'r rheini gan amlaf yn weithwyr SU. Mae hyn yn beth prin iawn yng Nghymru, er i fudiadau fel Trobwynt benodi gweithwyr ysgolion am gyfnod. Roedd yn dda clywed am eu cynlluniau Pasg a Nadolig hefyd, yn arbennig eu diwrnodau 'profiad y Pasg' a'r Nadolig wrth ymweld ag ysgolion. I ddarllen mwy am eu gwaith, ewch i https://www.suscotland.org.uk.

**CVE Scotland**
Mae'n debyg mai'r cyswllt gyda'r elusen CVE oedd y mwyaf rhyfeddol. Elusen yw hon sy'n gweithio gydag eglwysi i'w helpu i wneud cyswllt â'u hysgolion leol. Gan fod y Cyngor Ysgolion Sul, fel rhan o'i gynllun gwaith am y tair blynedd nesaf, hefyd am helpu eglwysi i ymestyn allan i'w hysgolion lleol, roedd yn gyswllt pwysig.

Wedi ebostio cadeirydd yr elusen, Megan Patterson, daeth ateb yn dweud y byddai'n hapus i fy nghyfarfod yn ei chartref yn Livingstone, a hefyd y byddai modd cyfarfod y Prif Weithredwr yn y swyddfa yn Paisley. Wedi cadarhau dyddiad ac amser, o fewn hanner awr, daeth ebost arall ganddi – yn dweud ei bod hi newydd sylweddoli fy mod yn dad i Gruffydd! Erbyn deall, gwraig o Aberystwyth oedd Megan yn wreiddiol, er ei bod wedi byw yn yr Alban ers dros 50 mlynedd. Mae ei mam yn dal i fyw yn Aberystwyth, yn 96 oed, a'i chwaer yn aelod yn yr Eglwys Efengylaidd yn y dref, lle mae ein mab ni hefyd yn aelod. Roedd Megan ar ymweliad ag Aberystwyth yn ddiweddar ac wedi mynychu oedfa yr oedd Gruffydd yn digwydd bod yn ei harwain y diwrnod hwnnw.

Cyswllt diddorol arall rhyngom oedd fod ei rhieni, sef Ieuan ac Ivory Davies, yn ffrindiau agos i dad-cu'r Parch. Ddr Rhys Llwyd, Caersalem, Caernarfon, sef y Parch. Gareth Davies. Roedd Megan yn cofio'r dylanwad mawr a gafodd ef arni pan oedd yntau'n gaplan ar wersylloedd Bryn-y-groes, y Bala, pan oedd hi yn ei harddegau. Treuliodd Megan lawer o'i bywyd yn gweithio fel cenhades yn Affrica, ond mae wedi ymddeol erbyn hyn, ac mae hi a'i gŵr, sy'n weinidog ar eglwys rydd yn yr Alban, yn brysur yn gwasanaethu sawl mudiad Cristnogol.

Bu'n dda clywed am eu gwaith, ac am y berthynas dda sydd rhwng eglwysi ac ysgolion. Mewn cyfnod lle mae llawer o eglwysi heb ysgolion Sul, mae her wirioneddol yn ein hwynebu o ran creu cyswllt â phlant a theuluoedd unwaith yn rhagor; heb os, mae cyswllt ag ysgolion lleol yn allweddol i hyn. Gyda phwyslais yn y cwricwlwm newydd ar gynefin a'r gymuned leol, mae gan ein heglwysi rôl allweddol i'w chwarae yn hyn. Bu'n braf clywed am waith CVE, sydd wedi bod yn gwneud y gwaith yma ers degawdau. Bu'r cyfarfod â Lynn MacMillan yn Paisley yr un mor adeiladol, a hithau'n cydlynu'r gwaith o ddydd i ddydd. I ddysgu mwy am eu gwaith, ewch i https://cve-scotland.org.uk.

**Canolfannau GLO a John Ritchie Ministries**
Dwy ganolfan adnoddau fawr yn yr Alban yw'r rhain, y naill yn Motherwell a'r llall yn Glasgow, sydd â dewis anhygoel o lyfrau ac adnoddau ynddynt. Erbyn hyn, prin iawn yw'r siopau Cristnogol sydd ar ôl yng Nghymru, a dewis cyfyng iawn sydd yn y siopau sy'n weddill. I mi, erbyn hyn siop lyfrau'r Church House Bookshop, Westminster, Llundain, yw'r unig siop o sylwedd sydd ar ôl, felly bu'n dda cael ymweld â dwy ganolfan enfawr yn yr Alban. Gyda chynifer o siopau wedi diflannu o'r stryd fawr, a rhai ddim ond yn gwerthu ar lein erbyn hyn, roedd yn dda treulio rhai oriau difyr yn gafael mewn cyfrolau diddorol a gweld y diwyg a'r cynnwys, er mwyn casglu syniadau posib i'w cyfieithu. Mae gan GLO wefan, sef https://www.globookshop.com, os hoffech wybod mwy.

**Christian Focus Publications**
Tua 20 mlynedd yn ôl bûm i fyny yn Inverness am dridiau, gyda William a Carine McKenzie, a aeth ati 50 mlynedd yn ôl i sefydlu'r wasg hon. Bu eu hymroddiad fel gŵr a gwraig dros waith plant yn arbennig ac yn gaffaeliad i eglwysi dros y wlad. Wedi i mi ddychwelyd o'r ymweliad hwnnw, fe wnaethon ni gyfieithu cyfres o werslyfrau yn Gymraeg, sef cyfres Ar y Ffordd, fel cynllun dwy flynedd ar gyfer yr oedrannau dan 5, dan 11 a than 18. Cyhoeddwyd nifer o lyfrau lliw ganddynt hefyd ar y pryd, gan gynnwys *Beibl Lliw Dwylo Bach*. Cyfrol a gefais yn yr Alban y tro hwn oedd cyfrol ddeniadol yn rhoi cefndir a thema pob un llyfr yn y Beibl i blant, sef *66 Books: one story*. Mae'n debyg na fydd yn bosib ei chyfieithu i'r Gymraeg – mae'n gyfrol sylweddol, ond byddwn yn cymeradwyo hon i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant yn yr eglwys fel cyfeirlyfr defnyddiol iawn. Dyma fanylion y gyfrol: https://www.christianfocus.com/products/3087/66-books-one-story

Heb os, roedden nhw'n bum diwrnod i'm hysbrydoli, a bendithiol iawn oedd clywed am yr angerdd oedd gan bawb y gwnes i eu cyfarfod dros gyflwyno'r Efengyl i blant. Gweddïwn am fendith ar eglwysi'r Alban, ac y gwelir cynnydd yn y nifer plant sy'n mynychu – yn arbennig o gofio bod cynifer ohonynt wedi diflannu ers cyfnod y clo.

## Ffilm newydd ar Addysg Grefyddol

Isod ceir dolen i'r ffilm newydd a grëwyd yn arbennig ar gyfer Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (Cymru) gan gynyrchiadau Fresh Gecko.

Mae'r ffilm fer hon yn hyrwyddo gwerth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae wedi'i hanelu at bobl ifanc, ysgolion a lleoliadau, rhieni/gwarcheidwaid, ac eraill sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Y ddolen YouTube uniongyrchol yw
https://m.youtube.com/watch?v=mdFxWoCvqzo

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

## Cariad a Barn



Eleni, yn y Tabernacl, Caerdydd, rydyn ni'n trafod cwestiwn mawr bob mis, a chwestiwn mawr mis Rhagfyr yw: sut y gallaf i gysoni Duw o gariad gyda Duw o farn?

Efallai eich bod chi'n meddwl: "Dim ond ni'r Cristnogion yn ein byd bach ni sy'n poeni am gwestiynau felly!" Ond byddwn yn anghytuno.

Dwi'n meddwl bod ***pawb*** yn dyheu am gael eu barnu. Wir! Rydyn ni'n treulio cymaint o amser yn chwilio am gymeradwyaeth: cymeradwyaeth teulu, ffrindiau, ysgol, gwaith, Duw, ein hunain. Rydyn ni'n cyfiawnhau ein hunain; rydyn ni'n cyflwyno ein hunain; rydyn ni'n gwisgo mygydau ffug a hyfryd; rydyn ni'n meithrin ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol – pam? Achos ein bod ni'n dyheu am glywed y gair sy'n dweud: rwyt ti'n iawn. Rwyt ti'n dderbyniol. Rwyt ti'n haeddu cael dy garu. Rydyn ni eisiau clywed gair y farn sy'n dweud: dieuog.

Ond y broblem yw: dydyn ni ddim yn credu, yn nyfnder ein calonnau, ein bod ni'n iawn, neu'n dderbyniol, neu'n ddieuog, neu'n haeddu cariad fel yr ydym. Felly, rydyn ni'n cuddio ein 'ni' go iawn ac yn gwisgo mygydau. A gallai hyn weithio gyda phobl eraill, ond nid gyda Duw. Gyda Duw, rydyn ni fel plentyn tair oed sy'n rhoi ei dwylo dros ei hwyneb a chredu nad ydy neb yn gallu ei gweld!

Mae dwy ran i newyddion da'r efengyl. A dyma'r rhan gyntaf: mae Duw yn ein gweld, mae Duw yn ein nabod, mae Duw yn ein barnu. A dyma farn Duw: dydyn ni ddim wedi llwyddo i fod y bobl y mae Duw wedi ein creu ni i fod. Dydyn ni ddim wedi derbyn y cyflawnder o fywyd y mae Duw wedi ei gynnig i ni. Rydyn ni wedi dewis byw bywyd gwaeth, bywyd llai.

Ond, yn ein byd ni, mae hafaliad rhwng 'barnu' a 'chondemnio'. A dyma'r gwahaniaeth rhyngom ni a Duw. I Dduw, dydy barnu ddim yn golygu condemnio. Mae barn Duw yn debycach, efallai, i benderfyniad dyfarnwr mewn gêm rygbi. Dydy'r cais ddim yn ddilys; dydy'r gic ddim wedi mynd drosodd; roedd y chwaraewr wedi camsefyll. Mae barn Duw yn ddisgrifiad o ffeithiau ein bywydau. Ond mae'r farn hon yn dod o galon Duw sy'n llawn cariad at bob un ohonom.

A dyma ail ran newyddion da'r efengyl: 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef.'

Yn Iesu Grist mae Duw wedi torri'r hafaliad rhwng barnu a chondemnio. Mae Duw wedi ein barnu ni, ond dydy e ddim wedi ein condemnio ni. Yn lle hynny, mae wedi dod ei hun yn Iesu Grist: i dalu ein cosb ni, i fynd i'r *sin bin* yn ein lle ni er mwyn i ni barhau i chwarae ar y maes – ac i ddangos i ni sut i chwarae'r gêm orau erioed. Mae'r barnwr wedi dod yn hyfforddwr, yn gapten ac yn chwaraewr – ac yn hapus i fod yn eilydd i roi i ni'r cyfle ardderchog i chwarae ar y maes, a dilyn ei esiampl.

Mae'r ddealltwriaeth hon o'r gwahaniaeth rhwng barn Duw a'n barn ni'n bwysig iawn. Fel Cristnogion, mae dau gamgymeriad rydyn ni eu gwneud yn aml iawn wrth rannu efengyl Iesu Grist. Y camgymeriad cyntaf yw cyhoeddi Duw sy'n caru ac yn derbyn pawb fel maen nhw, heb sôn am y gost o fyw bywyd heb Iesu Grist. Mae'n wir; mae Duw *yn* ein caru ni'n ddiamod fel yr ydym – ond mae Duw ar yr un pryd yn ein galw i ddilyn yr Un a fu farw ar y groes er mwyn i ni fod yn rhydd i fyw bywyd yn ei holl gyflawnder. Dydyn ni ddim yn deall gwyrth llawenydd a gobaith cofleidiad Duw os nad ydym ni wedi derbyn ei air o farn arnom yn gyntaf.

Ond mae camgymeriad arall y mae'r eglwys wedi tueddu i'w wneud, a dwi'n meddwl bod yr ail gamgymeriad yma'n llawer gwaeth na'r un cyntaf. Y camgymeriad o farnu pobl ein hunain, a'u condemnio. Dydy Iesu ddim wedi ein gorchymyn ni i farnu pobl o gwbl. A dweud y gwir, mae wedi gorchymyn yn gymwys y gwrthwyneb: 'Peidiwch â barnu, rhag ichwi gael eich barnu; oherwydd fel y byddwch chwi'n barnu y cewch chwithau eich barnu, ac â'r mesur a rowch y rhoir i chwithau.' Yn rhy aml, mae'r eglwysi'n bihafio fel petai'r gorchymyn mawr yn dweud: 'Barnwch eich cymydog fel chi eich hunain'. Rydyn ni mor dda am ein barnu ein hunain a phawb arall. Ond, fel mae'r apostol Paul yn ein hatgoffa: 'Nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath.' Er gwaetha hynny, a hyd yn oed gorchymyn clir Iesu i beidio â barnu neb, yn y gorffennol mae'r eglwys wedi llwyddo i farnu bron pawb: merched dibriod sy'n mynd yn feichiog, pobl ddu eu croen, pobl hoyw, pobl o grefyddau eraill, pobl sydd wedi ysgaru, pobl o enwadau eraill, pobl sy'n gaeth i alcohol neu gyffuriau, pobl â phroblemau salwch meddwl, a hyd yn oed pobl oedd mor drist ac unig i'w lladd eu hunain.

Mae newyddion da'r efengyl – 'nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef' – yn newyddion mor dda fel nad ydyn ni'r Cristnogion yn ei gredu!

Mae dwy dasg syml gyda ni fel Cristnogion: caru Duw, a charu ein cymydog fel ein hunain. Gadawn y farn i Dduw – yr unig Un sy'n gallu barnu'n deg. Ac mae Duw wedi dweud ei air o farn dros bob un ohonom: oherwydd Iesu, rwyt ti'n iawn. Rwyt ti'n dderbyniol. Rwyt ti'n haeddu cael dy garu. Rwyt ti'n ddieuog.

## Ein Pregethwr gwadd hedddiw yw…

**Bu Gwyn Rhydderch, Swyddog Cyfathrebu a Phrosiectau EBC, yn ffilmio pregethau bob mis i'w defnyddio mewn eglwysi ac ar gyfer aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu'n dymuno eu gweld. Y Nadolig hwn mae dwy oedfa Nadolig wedi eu paratoi yn y gyfres "Ein pregethwr gwadd heddiw yw ..."**

Nia Wyn Williams, Pwllheli, sy'n cyflwyno'r oedfa gyntaf ar y thema: 'Beth welwn ni'r Nadolig yma?'

John Pritchard, Llanberis, sy'n cyflwyno'r ail oedfa ar y thema: 'Yn y Dechreuad'

Gellir cael mynediad at yr oedfaon wrth ddilyn y dolenni hyn a gellir eu gwylio yno neu ddilyn cyfarwyddiadau i'w lawrlwytho ar gyfer eu dangos o flaen cynulleidfa os nad oes cysylltiad efo'r we yn y lleoliad:

Nia Wyn Williams, 'Beth welwn ni'r Nadolig yma?

Y Parchedig John Pritchard, ' Yn y Dechreuad'

Mae'r gyfres hon wedi profi'n gymorth i eglwysi i gynnal oedfaon yn gyson.

Bydd dwy bregeth newydd yn ymddangos bob mis. Cewch eu gweld drwy ddilyn y ddolen hon neu chwilio ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru

https://www.ebcpcw.cymru/cy/ein-pregethwr-gwadd-heddiw/





# Myfyrdodau ar gyfer Suliau'r Adfent



## Ein Brenin a'n Duw

I fyd di-gred, colledig, – i ddüwch
Y ddaear lygredig
Y daeth, i ganol ein dig,
A dod yn wynfydedig.
*Geraint Lloyd Owen*

- **Carol:** 'Ti ydyw Iôr gogoniant' (*Caneuon Ffydd*, 418)
- **Darlleniadau:** Salm 24; Efengyl Ioan, 18:28–38
- **Myfyrdod**

Fe gofiwch i'r Iesu gael ei draddodi i ddwylo Peilat gan yr awdurdodau Iddewig, a hynny wedi ei gyhuddo o greu terfysg a chynnwrf. Cyhuddwyd Iesu o fod yn fygythiad i Gesar Awgwstws, ac iddo'i wneud ei hun yn frenin. Ond ymateb Iesu i hyn oll oedd, "Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn" (Ioan 18:36). Yna, pan ofynnodd Peilat: "Yr wyt ti yn frenin, ynteu?" (37), ateb Iesu oedd: "Ti sy'n dweud fy mod yn frenin ... Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd" (37). Felly, Iesu yw ein brenin ysbrydol, Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr Arglwyddi – yr hwn y bydd pob glin yn plygu ger ei fron, ac y bydd pob tafod yn cyffesu ei fod yn Geidwad ac yn Waredwr.

Credaf i'r Iesu gael ei eni i deyrnasu; cafodd ei anfon i'r byd yn frenin i bawb: "Er mwyn hyn y cefais fy ngeni … i dystiolaethu am y gwirionedd." Daeth i dystio amdano'i hun, a does neb yn tanlinellu hyn inni yn fwy nag Ioan. Dywed ar ddechrau ei Efengyl, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair" (1:1). Cyfeiria at Iesu fel 'Brenin yr Iddewon', 'Mab Dafydd', 'Mab Duw'!

Daeth i dystio drwy ei weithredoedd, "Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy na'r eiddo Ioan, oherwydd y gweithredoedd a roes y Tad i mi i'w cyflawni, yr union weithredoedd yr wyf yn eu gwneud, y rhain sy'n tystiolaethu amdanaf fi mai'r Tad sydd wedi fy anfon." (Ioan 5:36) Pan gafodd Iesu ei fygwth gan yr Iddewon, gofynnodd, '"Yr wyf wedi dangos i chwi lawer o weithredoedd da trwy rym y Tad. O achos prun ohonynt yr ydych am fy llabyddio?" (Ioan 10:32)

Daeth i dystio hefyd drwy ei bregethu a'i addysgu: yr oedd rhywbeth arbennig iawn yn ei arddull o weithio ymysg pobl. Pan ddychwelodd y swyddogion a anfonwyd i'w arestio yng Ngŵyl y Pebyll yn waglaw, fe ddywedon nhw wrth eu meistri, "Ni lefarodd neb erioed fel hyn" (Ioan 7:46). Yna, wrth annog y dyrfa yn y synagog yng Nghapernaum ar y testun 'Bara'r Bywyd', fe ddywedodd, "Y mae'r geiriau yr wyf fi wedi eu llefaru wrthych yn ysbryd ac yn fywyd." (Ioan 6:63)

Do, cafodd ei eni i deyrnasu, a hynny drwy wasanaethu ac nid llywodraethu, drwy achub a chymodi ac nid gorfodi. Pwrpas ei ddyfodiad, meddai, oedd: "i geisio ac i achub y colledig" (Luc 19:10). A'i fwriad wrth wneud hyn? "Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder" (Ioan 10:10). Ydy, mae'n frenin o ddewis i lawer, ac y mae'r rhai sydd yn credu ynddo eisoes ym meddu ar y bywyd tragwyddol.

Nawr 'te, 'dewch inni gofio hefyd fod Iesu yn teyrnasu heddiw. Cafodd ei eni'n frenin pan glywodd y byd waedd yr un ifanc yn codi o berfeddion rhyw stabl oer, anghynnes a digroeso ym Methlehem, a phan welodd rhyw fugeiliaid oleuni mawr a chlywed angylion yn canu. Cafodd ei gyhoeddi'n frenin pan gyflawnodd broffwydoliaeth Sechareia wrth farchogaeth i mewn i Jerwsalem, i fonllefau'r dyrfa, "Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Arglwydd; yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf" (Luc 19:38). Cafodd ei goroni'n frenin pan gododd o'r bedd yn fyw, a phan dreiglwyd y maen gan yr angel er mwyn i'r disgyblion weld lle roedd wedi bod yn gorwedd. Doedd dim posib cadw'r Iesu'n gaeth mewn bedd, canys ef yw brenin bywyd a marwolaeth, amser a thragwyddoldeb.

Teyrnasiad ysbrydol felly yw teyrnasiad Iesu; nid teyrnasiad bydol, tymhorol mohono. Iesu sydd wrth galon y cyfan. Ef yw ein brenin; ef sy'n teyrnasu yn ein calonnau. Dyna addewid gwerth chweil mewn cyfnod digon anodd yn ein profiad fel pobl Dduw ac eglwys Dduw. Ymhen amser, dyma'r Brenin fydd yn teyrnasu dros bawb a phopeth hyd byth: "Aeth brenhiniaeth y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef, a bydd yn teyrnasu byth bythoedd." (Datguddiad 11:15) Dyna gred y salmydd, y proffwyd, yr apostol a'r credadun erioed. Nid oes gobaith arall inni ond yn Iesu Grist. Cyfyngir popeth arall yn y byd o fewn ffiniau cyfyng iawn, ond y mae gan ein ffydd Gristnogol y gallu i agor drysau a ffenestri tragwyddol newydd yn hanes pawb ohonom.

'"Ti sy'n dweud fy mod yn frenin," atebodd Iesu. "Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd." ' (Ioan 18:37). "Halelwia! Oherwydd y mae'r Arglwydd ein Duw, yr Hollalluog, wedi dechrau teyrnasu. Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo'r gogoniant" (Datguddiad 19:6).

Ydyn ni'n gallu credu hyn oherwydd onid dyma'r Crist sydd am gyfarfod â ni yr Adfent hwn?

- **Gweddi** (Anad., *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts, t. 75)

Diolchwn, Arglwydd,
am i ti roi i'n bywyd orwelion tragwyddol.

Cod ni uwchlaw ffiniau amser
a chyfyngiadau materol,
i rannu yn dy fywyd anfeidrol,
a chyda holl gwmpeini'r nef,
sy'n trigo gyda thi
yng ngogoniant dy deyrnas nefol,
i'th foliannu a'th glodfori di dros byth,
y Duw tragwyddol. Amen.

S4C ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 15 Rhagfyr, am 7:30yh – Adfent #3**
Rhaglen o garolau a pherfformiadau'r Nadolig wrth nodi Trydydd Sul yr Adfent, a chawn weld cynllun i leihau unigrwydd pobl hŷn ar Ynys Môn y Nadolig hwn.

BBC radio cymru ***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 15 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Blant Annibynwyr Gorllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed, dan arweiniad Nicki Roderick

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 15 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Ion Thomas, Caerdydd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Hawl i farw, hawl i fyw

Yng nghanol y pair gwleidyddol, bydd ambell gwestiwn yn cael ei gyflwyno gan gynnig pleidlais rydd i aelodau senedd-dai Prydain. Pwnc felly oedd y drafodaeth ddiweddar ynglŷn â chyfreithloni trefn i roi hawl i farw yng Nghymru a Lloegr. Amcan yr ysgrif hon yw ceisio ystyried yn gryno rai o'r ystyriaethau a gafwyd cyn y pleidleisio, ac yn dilyn hynny. Yn ystod y trafodaethau gwelwyd y senedd-dai ar eu gorau, gyda'r aelodau'n parchu safbwyntiau ei gilydd. Yn senedd San Steffan, roedd y mwyafrif o blaid parhau'r drafodaeth a threfnu ail ddarlleniad, tra gwelodd Senedd Cymru fwyafrif yn datgan fel arall.

Sylwn nad yw'r cyrff crefyddol wedi bod yn or-barod i ddatgan o blaid nac yn erbyn, er y dyfalwn mai greddf y rhan fwyaf o Gristnogion fyddai cadw at y safbwynt o wrthod cyfreithloni'r hawl i farw, ar hyn o bryd.

Gorsymleiddio'r drafodaeth fyddai dweud fod bywyd yn sanctaidd ac yn 'rhodd Duw' ar y naill ochr a bod gwrthod yr hawl i drefnu eich marwolaeth eich hun dan oruchwyliaeth feddygol yn herio hawliau'r unigolyn ar y llaw arall. Gellir codi adnodau beiblaidd i brofi neu herio pob safbwynt, mae'n siŵr. Ceir cyd-destunau cyfarwydd, yn arbennig yn yr Hen Destament (Salm 139) am ddialedd a chosb drwy farwolaeth fwriadol, a bydd enghreifftau yn y Testament Newydd (Actau 5) yn hawlio trafodaeth sensitif hefyd.

Cyflwynodd y Parchg Heini Jones y safbwynt hwn yn *Cenn@d* yn ddiweddar, gan wneud hynny mewn modd effeithiol a theg. Prin fod eraill ohonom yn gwbl gartrefol â'r dweud bod Duw yn dewis amser marwolaeth pob un ohonom, nac mai yw ewyllys Duw yw dioddefaint unrhyw un. Deallwn fod dros 7 miliwn o bobl wedi marw o Coronavirus yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n anodd credu bod unrhyw ddiwinydd yn barod i ddweud mai ewyllys Duw oedd hynny.

Pan fydd person yn marw ar faes y gad neu'n dilyn gweithred gan lofrudd neu fomiwr, ai ewyllys Duw yw hynny? Byddwn yn ystyried creulondeb neu drachwant cyd-ddyn cyn dweud mai Duw ewyllysiodd hyn. Ni fyddwn am negyddu hawl na gallu Duw am funud, ond gofyn ai cynllun Duw yw peri dioddefaint a marwolaeth person? Bydd ystyried hanes Ananias a Seffeira yn Actau 5 yn gofyn mwy na derbyn yn syml iddynt farw am fod Duw wedi bwriadu hynny.

Roedd penderfyniad Cyngor Undeb Bedyddwyr Cymru yn gofyn am arweiniad Duw i ni, aelodau'r eglwys yn ganolog, a hefyd i'r gwleidyddion oedd yn wynebu'r penderfyniad cyfreithiol. Dyfynnwyd rhai ohonynt yn dweud iddynt bleidleisio o blaid symud ymlaen i'r ail ddarlleniad, gan nodi y gallent fod yn pleidleisio yn erbyn yn y diwedd.

Bu'r drafodaeth a gafwyd yn San Steffan ar gynnig gan Kim Leadbeater AS yn bwyllog a pharchus. Fel yn y trafodaethau a fu ar gyfreithloni ysgariad ac erthyliad ar draws y degawdau, bu sawl cam i fireinio'r ddeddf fel y mae heddiw. Hawliau'r unigolyn yw'r ystyriaeth greiddiol – a chwilio am ffordd ymlaen drwy lwydni'r deddfu a sgil-effeithiau amgylchiadau pobl, yn arbennig o safbwynt hawliau merched. Mae'n debyg y ceir anghydweld ar fater erthylu am flynyddoedd i ddod yn yr Unol Daleithiau, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r hawl i farw, beth bynnag fydd y canlyniad ym Mhrydain nawr.

Bydd gweinidogion wedi bod wrth erchwyn gwely nifer sy'n dioddef poenau enbyd. Yn ddi-os, mae angen gwella gofal lliniarol ym Mhrydain, ac yn y tymor byr o leiaf gobeithiwn y bydd y llywodraethau'n effro i'r angen hwn yn gymaint ag unrhyw ofyn meddygol arall. Yn bersonol, rwy'n eiddigeddus o unrhyw un sy'n edrych ar bynciau'r byd a gweld lluniau du a gwyn. Ofnaf mai ychydig yn unig yr wyf yn ei weld drwy'r llwydni, a gofynnaf am amser i glywed y llais a gweld y llun y bydd Duw am i mi sylwi arnynt.

*Denzil John*

# 'Awn i Fethlem'

Yn y calendr eglwysig, 1 Rhagfyr oedd Sul Cyntaf yr Adfent eleni – y 'Dyfodiad'. Dyma'r cyntaf o'r pedwar Sul sy'n arwain at y Nadolig, ac mae'r pedwar i fod i'n hatgoffa yn eu tro am bedwar dyfodiad Iesu Grist – ei eni'n faban ym Methlem; ei eni'n ysbrydol yng nghalon y Cristion; ei ddyfodiad i bawb yn awr marwolaeth; a'i ailddyfodiad buddugoliaethus yn niwedd y byd.

Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r arfer o gael torch fytholwyrdd adeg yr Adfent, a phedair cannwyll arni. Mae'r canhwyllau hynny'n cael eu goleuo yn eu tro o Sul i Sul, yn arwydd ein bod, adeg y Nadolig, yn cofio am eni'r Hwn a ddatganodd mai Ef yw Goleuni'r Byd.

Mae sôn am ganhwyllau yn ein harwain yn naturiol at y Ficer Prichard, a oedd yn byw yn ardal Llanymddyfri bedwar can mlynedd yn ôl. Lluniodd gannoedd o benillion bach syml i hyfforddi'r bobl yn hanfodion y ffydd Gristnogol – i fod yn rhyw fath o oleudy ysbrydol iddynt. Pan gasglwyd y penillion ynghyd yn gyfrol, rhoddwyd y teitl *Cannwyll y Cymry* arni, a dyna un o lyfrau mwyaf poblogaidd a dylanwadol y Gymraeg am flynyddoedd lawer wedyn.

Carol o waith y Ficer sy'n dal yn boblogaidd heddiw yw'r un sy'n dechrau:

Awn i Fethlem bawb dan ganu,
Neidio, dawnsio, a difyrru,
I gael gweld ein Prynwr c'redig,
Aned heddiw, ddydd Nadolig.

Gair o fyd y ddawns yw 'carol' yn wreiddiol, a chlywn yn y garol sionc hon sŵn dawnsio a gorfoleddu, sŵn dathlu pen-blwydd. A'r nodyn arall sy'n cael ei daro drwyddi draw yw un o ryfeddod, wrth feddwl am bwy oedd yr Un a aned ym Methlem – y Duw Hollalluog, Creawdwr nef a daear, yr Un sy'n bod erioed, ar yr un pryd yn faban bach diymadferth ar lin ei fam. Neu, fel y dywedodd y Ficer:

Awn i Fethlem i gael gweled
Mair, a Mab Duw ar ei harffed;
Mair yn dala rhwng ei dwylo
Y Mab sy'n cadw'r byd rhag cwympo!

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

(*Addasiad o 'Munud i Feddwl', BBC Radio Cymru, dydd Llun, 2 Rhagfyr 2024*)

# Cantata'r Geni ar Gerdd Dant

Rhan o Gyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant, Aberystwyth a'r Fro 2025, oedd Cantata'r Geni. A chyn rhoi sylw i'r rhan arbennig honno o'r noson mae'n deg cydnabod bod Dawnswyr Seithennyn, Ensemble Telynau Gwasanaeth Cerdd Ceredigion, criw o Barti'r Greal a Linda Griffiths ac Aled Morgan wedi ffurfio un hanner i'r noson fyddai wedi bod yn gyngerdd ardderchog ynddo'i hun. Ond Cantata'r Geni sy'n mynnu sylw yma.

Mae'r geiriadur yn dweud wrtha i mai 'darn cymharol hir o naratif gerddorol i leisiau, i gyfeiliant offerynnau fel arfer, gyda chorws, unawdau a cherddorfa' yw cantata. Ac yn hynny o beth roedd Cantata'r Geni yn cydymffurfio'n daclus â'r traddodiad cerddorol gorllewinol. Lle'r oedd o'n gwyro o'r traddodiad hwnnw oedd fod Bethan Bryn wedi impio ein traddodiad unigryw ninnau iddo fo i greu rhywbeth arbennig iawn.

Bydd rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* yn cofio anturiaethau eraill yng nghwmni Bethan drwy 'Dan y Wenallt' ac i Dryweryn yn y sioe 'Dŵr' gyda Jeremy Turner. Felly, er bod yr arfer o fentro yn gyfarwydd i edmygwyr Bethan, roedd gwrando ar Gantata Cerdd Dant yn brofiad nad oedd neb wedi ei gael o'r blaen.

Nid fi yw'r un i gynnig sylwebaeth ar lwyddiannau ac aflwyddiannau cerddorol y noson, dim ond dweud, i'r lleygwr hwn, ac yn ôl llawer o rai mwy gwybodus na fi, roedd o'n brofiad gwefreiddiol.

Un o'r rhesymau pam mae cerdd dant yn apelio ata i ydy'r lle blaenllaw a roddir i'r geiriau. Mae geiriau yn aml yn gallu cael eu sgubo o'r neilltu gan alaw dda – boed hi'n emyn neu'n gân bop; y gorau'n y byd ydy'r dôn, y peryg ydy i'r geiriau fynd i'w colli. Ond mae cerdd dant yn dechrau gyda'r geiriau ac yn meddwl sut orau i'w dyrchafu nhw. Yn yr achos hwn, geiriau cyfarwydd yr Efengylau, o, 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair ...' hyd at 'Iddo ef y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.'

Llwyddodd y côr oedd wedi ei gynnull o blith partïon ac unigolion amlycaf gogledd Ceredigion i gyfuno nifer o ffurfiau – o unawdau, deuawdau, pedwarawdau a llefaru i ganu corawl tawel, teimladwy ar y dechrau i glo grymus a gorfoleddus. Y cyfan i gyfeiliant pedair telyn, allweddell a ffliwt.

Mae adnodau'r Nadolig bron â mynd yn ystrydebau. Ond dyma'u clywed o'r newydd o'u gosod ar alawon oedd yn ennyn diddordeb a chyfalawon oedd yn llifoleuo ystyr yr oedd peryg iddo fod wedi mynd yn dywyll, neu ei golli yn y llygredd golau sy'n nodweddiadol o'n cyfnod ni.

Fe'm trawodd, o wrando, nad dyletswydd yr ifanc yn unig ydy herio ac estyn traddodiad. Mae'r ddyletswydd honno yn perthyn i bob un ohonom, beth bynnag fo'n hoed. Lle, a'r disgwyliad o'r ifanc, ydy bod yn rhwystredig, yn ddiamynedd a blin efo'r to hŷn. Mae hynny'n rhan bwysig o'r ddeinameg wrth symud pethau ymlaen. Ond mae ceidwadaeth yn gallu perthyn i'r ifanc yr un fath yn union ag y mae radicaliaeth yn gallu bod yn fwy effeithiol yn nwylo'r cenedlaethau hŷn.

Nid creu rhywbeth gwahanol er mwyn bod yn wahanol wnaeth Bethan, ond gweld ei bod hi am ddweud rhywbeth. Ac os nad ydy'r traddodiad fel ag y mae o'n caniatáu iddi wneud hynny,



wel, aed ati i'w estyn o i'r eithaf nes ei fod yn canu yn ei dwylo hi. Yn profi ei dawn hi a gwytnwch y traddodiad.

Roedd Cantata'r Geni – y cantata cerdd dant cyntaf – yn cyflawni cymaint ar gymaint o lefelau. Llongyfarchiadau mawr i bawb oedd yn rhan o'r fenter!

*Rocet Arwel Jones*

Dyma gerdd Dafydd John Pritchard am y profiad o fod yn rhan o'r corws, cerdd yn arddull William Carlos Williams. Os ydych yn hoff o'r arddull gynnil hon, fe lansiodd Dafydd ei gyfrol ddiweddaraf, *deud llai* (Cyhoeddiadau Barddas) yn ddiweddar, ac mae llawer o gerddi yn yr arddull syml, uniongyrchol, hon yn y gyfrol honno.

**cantata'r geni**

fesul gair,
fesul adnod
a fesul golygfa;

fesul tant,
fesul nodyn,
fesul cainc
ac alaw;

fesul acen a
chroesacen
hefyd;

fesul llais,
fesul stori, fesul
pob datguddiad dwyfol.

fesul anecdot.

fesul stanc
mewn crud,
mewn croes.

*Dafydd John Pritchard*

Bydd recordiad o Gantata'r Geni i'w glywed ar Radio Cymru ddydd Sul, 29 Rhagfyr, am 12 o'r gloch

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru